



## Cofnod Presenoldeb

23 Hydref 2024

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Could I please request a record of attendance as a percentage for Senedd members during Plenary and their relevant Committees from Summer recess 2023 to Summer recess 2024?*

Gellir gweld ein hymateb isod.

Nid oes gennym gofnod o bresenoldeb Aelodau yn y Cyfarfod Llawn na chyfarfodydd pwyllgor yn y modd rydych wedi gofyn amdano. Mae hyn yn golygu nad oes gennym gofnod rhifiadol o bresenoldeb gan Aelodau unigol.

Felly, nid oes gennym y wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd o dan adran 16 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i roi cyngor a chymorth i chi. Yn hyn o beth, credwn fod gwybodaeth eisoes ar gael i'r cyhoedd a allai eich cynorthwyo gyda'ch cais.

Mae recordiadau fideo o drafodion y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau yn gweithredu fel cofnod cyhoeddus ac maent ar gael yn [Senedd.tv](#). I weld recordiadau o 2023 – dewiswch y tab archif.

Mae Cofnod y Trafodion yn darparu trawsgrifiad ar gyfer trafodion y Senedd ac felly'n gweithredu fel cofnod cyhoeddus o'r cyfraniadau a wneir yn nhrafodion y Senedd. Mae'r holl drawsgrifiadau ar gael ar ein gwefan - [Pori cyfarfodydd - Cyfarfod Llawn](#)

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Senedd Cymru  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](http://Information-request@senedd.wales)

Mae trawsgrifiadau pwyllgorau ar gael o dan bob tudalen pwyllgor pwnc - [Pwyllgorau](#). Fel arall, gallech ddefnyddio'r teclyn chwilio sydd hefyd ar gael ar ein gwefan - [Chwilio](#) - [Senedd Cymru](#).

Byddwch yn ymwybodol na fydd Aelodau a oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn, ond na wnaethant gyfrannu, yn ymddangos yng Nghofnod y Trafodion, tra bod cyfarfodydd pwyllgorau yn cofnodi ymddiheuriadau ac eilyddion ar ddechrau pob cyfarfod.

Yn gywir

**Buddug Saer**  
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**  
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon â sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF